# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) gan Aphra Brandreth AS fel Bil Cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2024. Mae'r Bil ar gael yma: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)

### Amcanion Polisi

3. Cynhwyswyd darpariaethau i fynd i'r afael â throseddau poeni da byw a gorfodaeth yn gyntaf yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Bil gan Lywodraeth y DU, a noddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a fethodd ym mis Mai 2023.

4. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Dr Thérèse Coffey AS y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) i Senedd y DU ar 11 Rhagfyr 2023 fel Bil Cyflwyno (o Fil Aelodau Preifat). Arweiniodd diddymu'r Senedd ar gyfer Etholiad Cyffredinol mis Gorffennaf 2024 at fethiant y Bil am yr eildro.

5. Ar 21 Hydref 2024, cyflwynwyd y Bil am y trydydd tro. Cynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad ar 29 Tachwedd 2024.

6. Mae'r Bil yn darparu nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 a bydd yn rhychwantu Cymru a Lloegr yn unig.

7. Mae ymosodiadau ar dda byw yn peri pryder sylweddol a pharhaus i ffermwyr a chymunedau gwledig a nod y Bil yw mynd i'r afael â'r mater difrifol hwn.

### Crynodeb o'r Bil

8. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

9. Mae'r Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) yn cynnwys darpariaethau i gyflawni nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 i wella gorfodaeth mewn ymateb i achosion o gŵn yn poeni da byw. Mae'r Bil yn gwneud hynny drwy gynyddu'r pwerau sydd ar gael i'r heddlu ar gyfer casglu tystiolaeth ac yna gwella gorfodaeth gan yr heddlu. Mae'r Bil yn ymestyn y dirwedd a gwmpesir i gynnwys ffyrdd a llwybrau ac yn ehangu cwmpas y da byw sy'n cael eu diogelu ar hyn o bryd i gynnwys camelidau. Mae hefyd yn cynyddu uchafswm y gosb mewn perthynas â throseddau yn adran 1 o Ddeddf 1953 o £1000 i ffi ddiderfyn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil, gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

<u>Cymal 1: Poeni da byw: cwmpas a chanlyniadau trosedd a’r Atodlen: Diwygiadau i Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953</u>

11. Mae'r cymal hwn yn rhoi effaith i'r Atodlen, sy'n nodi diwygiadau i Ddeddf 1953. Mae'r rhain yn cynnwys ymestyn y dirwedd a gwmpesir i gynnwys ffyrdd a llwybrau a chynnwys camelidau yn y diffiniad o dda byw.

12. Mae paragraffau 1(2)(b), 1(4) ac 1(5) o’r Atodlen yn diwygio adran 1 o Ddeddf 1953 i ddod â ffyrdd a llwybrau o fewn cwmpas y drosedd. Gallai anifeiliaid gael eu danfon ar hyd ffordd neu lwybr wrth symud i gae arall, neu efallai y bydd gwartheg godro yn cael eu symud o gae i barlwr godro, er enghraifft. Yn ystod y symudiadau hyn, mae'n bosibl y byddant yn agored i ymosodiadau gan gŵn.

13. Mae paragraff 1(2)(a), (3), (6)(a) ac (c) ac (8) o’r Atodlen yn diweddaru’r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 1953 er mwyn ymdrin ag ymosod ar dda byw ar wahân i boeni da byw. Diben y diwygiad yw cydnabod natur dreisgar y troseddau hynny.

14. Mae paragraff 1(6)(d) o’r Atodlen yn diwygio adran 1(4) o Ddeddf 1953 er mwyn esemptio perchennog ci rhag atebolrwydd am drosedd pan fo person arall yn gyfrifol am y ci heb gydsyniad y perchennog.

15. Mae paragraff 1(7) o’r Atodlen yn disodli adran 1(6) o Ddeddf 1953 i egluro bod person a geir yn euog o drosedd o dan adran 1 yn agored i gosb. Yn flaenorol, mae person sy’n cyflawni trosedd yn agored ar hyn o bryd ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (h.y. £1,000). Mae’r diwygiad hwn yn cynyddu’r gosb ar euogfarn ddiannod i ddirwy ddiderfyn.

16. Mae paragraff 1(7) o’r Atodlen hefyd yn mewnosod adrannau 1(7) i (9) newydd yn Neddf 1953 sy'n caniatáu i lys orchymyn person a gafwyd yn euog o drosedd i dalu treuliau sy'n gysylltiedig ag ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth o dan adran 2(8) a (9), yn egluro bod y llys yn rhydd i wneud y gorchymyn p'un a yw hefyd yn gosod dirwy ai peidio, ac yn nodi bod unrhyw swm y cyfarwyddir i berson ei dalu o dan adran 1(7) yn cael ei drin at ddibenion gorfodi fel pe bai'n ddigolllediad sy'n daladwy o dan orchymyn digolledu.

17. Mae paragraff 2 o’r Atodlen yn diwygio adran 3(1) o Ddeddf 1953 i gynnwys camelidau yn y diffiniad o “livestock”.

18. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn a’r Atodlen gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 2: Ymafael mewn cŵn a'u cadw'n gaeth

19. Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn disodli adran 2 o Ddeddf 1953. Mae'r cymal hwn yn nodi'r amgylchiadau, a ddisgrifir yn adran 2(1) ac (8) newydd, pan gaiff cwnstabl ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth mewn perthynas â'r drosedd o ymosod ar dda byw neu boeni da byw.

20. Mae cwmpas cyfyngedig y pŵer presennol yn atal yr heddlu rhag ymafael mewn ci am gyfnodau hir. Mae'n gyffredin i gi yr honnir iddo fod wedi poeni da byw, y mae ei berchennog yn aros am dreial am drosedd o dan Ddeddf 1953, i gyflawni ymosodiadau pellach yn y cyfnod interim rhwng y digwyddiad a'r achos llys, a all fod yn gyfnod cymharol hir. Nod y mesur yw helpu i atal cŵn rhag poeni da byw neu ymosod ar dda byw dro ar ôl tro.

21. Mae is-adran (2) newydd yn darparu y caiff cwnstabl sy'n ymafael mewn ci o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (1) gadw'r ci yn gaeth hyd nes bod y perchennog wedi hawlio'r ci ac wedi talu'r holl dreuliau a ysgwyddwyd oherwydd yr ymafaelwyd ynddo a'i gadw'n gaeth.

22. Mae is-adran (3) newydd yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i unrhyw gi yr ymafaelir ynddo o dan is-adran (1) os nad ydynt yn cael eu hawlio ar ôl saith niwrnod.

23. Mae is-adran (4) newydd yn darparu, os yw person yn cymryd meddiant o gi yr ymafaelwyd ynddo yn ddidwyll, bod y person hwnnw yn dod yn berchennog y ci.

24. Mae is-adrannau (5) a (6) newydd yn nodi gofynion mewn perthynas â chadw cofrestr o'r holl gŵn yr ymafaelwyd ynddynt o dan is-adran (1) gan brif swyddog yr heddlu ar gyfer pob ardal heddlu.

25. Mae is-adran (7) newydd yn cynnwys diffiniad o waredu (“disposing of”) ci at ddibenion yr adran hon.

26. Mae is-adrannau (8) a (9) newydd yn grymuso'r heddlu i ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth pan fo ganddynt sail resymol dros gredu bod y ci yn peri risg o ymosod ar dda byw neu boeni da byw eto, pe na bai’n cael ei gadw'n gaeth.

27. Mae is-adran (2) o'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol i ddiddymu adran 3 o Ddeddf Cŵn 1906 i'r graddau y mae'n dal mewn grym yn rhinwedd adran 68(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

28. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 3: Casglu samplau ac olion

29. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran newydd 2ZA yn Neddf 1953. Mae is-adrannau (1) i (4) yn galluogi cwnstabl i gymryd samplau neu olion gan gi neu dda byw pan allai hyn ddarparu tystiolaeth o drosedd sy'n cael ei chyflawni o dan adran 1 o Ddeddf 1953 ac ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth at y diben hwnnw. Gallai gwybodaeth sy'n deillio o sampl neu olion i gysylltu ci â digwyddiad fod yn ffactor galluogi allweddol i gynyddu cyfradd yr erlyniadau llwyddiannus.

30. Mae is-adran (5) yn darparu, os yw'r weithred o gymryd sampl yn gyfystyr â gweithred o lawdriniaeth filfeddygol, rhaid iddo gael ei wneud gan filfeddyg.

31. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth ynghylch pa mor hir y caniateir i samplau ac olion a gymerir o dan yr adran hon gael eu cadw.

32. Mae is-adran (7) yn diffinio “sample”, “veterinary surgeon”, a “veterinary surgery” at ddibenion yr adran hon.

33. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 4: Pwerau mynediad

34. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 2A yn Neddf 1953. Mae'n galluogi i warant gael ei dyroddi gan ynad heddwch sy'n awdurdodi mynediad at safle a'i chwilio gan gwnstabl er mwyn nodi ci y mae trosedd o dan adran 1 wedi'i chyflawni mewn cysylltiad ag ef, ymafael yn y ci a'i gadw'n gaeth o dan adran 2, cymryd sampl neu olion gan y ci o dan adran 2ZA neu i ymafael mewn unrhyw dystiolaeth o drosedd o dan adran 1 y gellir dod o hyd iddi. Gallai enghreifftiau o eitemau o dystiolaeth gynnwys tywel neu goler ci gwaedlyd.

35. Mae is-adrannau (1) a (3) yn darparu bod yn rhaid bodloni ynad heddwch sy'n dyroddi gwarant o dan y cymal hwn fod sail resymol dros gredu bod trosedd o dan adran 1 wedi'i chyflawni.

36. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff gwarant o dan y cymal hwn awdurdodi'r cwnstabl i ddefnyddio grym rhesymol os oes angen.

37. Yn fy marn i mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cymal 5: Rhychwant, cychwyn, darpariaeth drosiannol a theitl byr

38. Mae is-adrannau (1), (2) a (4) yn gymalau anweithredol. Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn nodi mai rhychwant tiriogaethol y Bil hwn yw Cymru a Lloegr. Mae is-adran (2) yn nodi pryd y daw'r Bil hwn i rym. Daw’r Bil i rym ar ddiwedd y cyfnod o dri mis sy’n dechrau gyda’r diwrnod y mae’r Ddeddf hon yn cael ei phasio. Mae is-adran (4) yn darparu mai teitl byr y ddeddfwriaeth yw Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) 2024. Mae is-adran (3) yn egluro bod y pwerau a roddwyd gan gymalau 2, 3 a 4 ar gael mewn cysylltiad ag unrhyw boeni da byw neu ymosod arnynt a ddigwyddodd (neu yr honnir iddo ddigwydd) cyn i'r Bil ddod i rym.

39. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad ar gyfer is-adran (3) y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

### Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

40. Mae'r Bil hwn yn rhychwantu ac yn gymwys o ran Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar y Bil ar y sail bod holl ddarpariaethau’r Bil yn ymwneud â mater cŵn peryglus a chŵn sydd allan o reolaeth ac yn beryglus sy’n fater a gedwir yn ôl yn unol â pharagraff 44, Adran B6 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

41. Yn fy marn i, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau'r Bil a nodir uchod gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, sef lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

### Rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)

42. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hynny yn y Bil hwn am resymau sy'n ymwneud ag amseru ac er mwyn sicrhau cydlyniant, sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas â gorfodi ar draws ffiniau.

43. Gall cŵn a'u perchnogion yng Nghymru a Lloegr symud yn rhydd ar draws y ffiniau, gan wneud eu ffordd i ardaloedd gwledig ac elwa ar hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad agored a'n parciau cenedlaethol a'n tirweddau ar sail ad hoc neu'n rheolaidd. Gyda chynnydd ar ôl y pandemig mewn perchnogaeth anifeiliaid anwes, mae mwy a mwy o gŵn yn mynd am dro, yn treulio gwyliau neu’n byw yn ein cymunedau gwledig, gyda chynnydd canlyniadol mewn ymosodiadau da byw. Gall problemau godi pan na fydd gan berchnogion dibrofiad neu anhysbys fawr o wybodaeth am y cod cefn gwlad neu'r amgylchedd gwledig, a bod cŵn heb eu hyfforddi, heb goler, heb dennyn a/neu fod ganddynt sgiliau adalw gwael yn dod i gysylltiad â da byw.

44. Mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid, a byddant yn sicrhau gwell cydnawsedd rhwng polisi a gweithredu, yn enwedig o ran materion trawsffiniol sy'n gysylltiedig â gorfodi. Mae’r Bil sicrhau trefn ddedfrydu gyson ar draws Cymru a Lloegr, ac yn sicrhau eglurder llwyr ar gyfer asiantaethau gorfodi, y Llysoedd a'r cyhoedd, sy’n osgoi unrhyw gamddealltwriaeth wrth gymhwyso’r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a hefyd yn darparu cyfle amserol i gyflawni amcan polisi penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r Bil fel y’i drafftiwyd.

**Goblygiadau ariannol**

45. Nid ystyrir bod gan y Bil oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru y tu hwnt i gostau staff.

**Casgliadau**

46. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, er mwyn bwrw ymlaen â materion lles anifeiliaid pwysig a phroffil uchel. Felly, rwy’n argymell bod y Senedd yn cefnogi’r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Mai 2025**